# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2522 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Cynllunio |
| Date | 12/01/2023 |
| Attendees | Cynghorwyr Lisa Winnett (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor Jules Gardner (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor George Humphreys (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor Jen Morgan, J.P. (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor Jacqueline Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Steve Smith (Swyddog)<br>Steph Hopkins (Swyddog)<br>Sally-Ann Evans (Swyddog)<br>Jane Engel (Swyddog)<br>Joanne Clare (Swyddog)<br>Helen Hinton (Swyddog)<br>Mark Hopkins (Swyddog)<br>Paul Samuel (Swyddog)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Sean Scannell (Swyddog)<br>Louise Bishop (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Michelle Hicks (Secretary)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Louise Rosser (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7029 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7030 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:- |

| | |
|---|---|
| | Cynghorwyr M. Day a J. Gardner.<br>Rheolwr Gwasanaeth, Datblygu a Stadau<br>Rheolwr Tîm, Rheoli Datblygu |

| Item ID | 7031 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 7032 |
|---|---|
| Item Title | Meysydd ar gyfer Sesiynau Gwybodaeth a Hyfforddiant Aelodau |
| Summary | Ni chodwyd unrhyw feysydd ar gyfer Hyfforddiant/Sesiynau Gwybodaeth Aelodau. |

| Item ID | 7024 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Ceisiadau Cynllunio |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm, Rheoli Datblygu.<br><br>Cais Rhif. C/2022/0152<br>Vivian Street Builders Merchants, Stryd Vivian, Abertyleri<br>NP13 2LE<br>Dymchwel gweithdy presennol a newid defnydd safle gwerthu nwyddau adeiladwyr i godi 2 annedd 2 ystafell wely ar wahân<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Cais Rhif C/2022/0270<br>Uned 2, The Walk, Glynebwy NP23 6AY<br>Newid defnydd o uned fanwerthu i ofal iechyd (deintyddfa)<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Cais Rhif C/2022/0182<br>Canolfan Siopa Parc yr Ŵyl, Victoria, Glynebwy NP23 8FP<br>Newid defnydd cyn ganolfan siopa yn ganolfan fusnes defnydd cymysg Dosbarthiadau Defnydd A, B a D, yn cynnwys ailwampio adeiladau presennol (a pheth dymchwel) ynghyd â newidiadau i lwybrau a buarthau lleol a gweithiau eraill cysylltiedig |

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn trafodaeth faith,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad a phwerau dirprwyedig a roddir i Swyddogion Cynllunio i ddiwygio geiriad amodau 4, 5, 6 ac 11 a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Cais Rhif C/2022/0123<br>Tir yn Heol y Fynwent, Glynebwy NP23 6YQ<br>Codi 13 o dai hunanadeiladu, gyda gweithiau allanol cysyllttiedig<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol **RHOI** caniatâd cynllunio gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Cais Rhif C/2022/0301<br>Springfield Cottage, Stryd Brenhines Victoria, Tredegar NP22 3QA<br>Cadw byngalo a lle parcio a mynediad wedi'i addasu<br><br>Yn dilyn trafodaeth faith,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol **GWRTHOD** caniatâd cynllunio am y rheswm a fanylir yn yr adroddiad. |

| Item ID | 7027 |
|---|---|
| Item Title | Rhestr ceisiadau a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig rhwng 24 Hydref 2022 a 18 Rhagfyr 2022 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd Tîm, Rheoli Datblygu fod camgymeriad yn yr adroddiad. Dylai Cais Rhif C/2022/0234 67 Stryd Marine, Cwm, Glynebwy – Addasu annedd bresennol i greu 4 fflat hunangynwhysedig ddarllen 'Gwrthodwyd'.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. |

| Item ID | 7026 |
|---|---|
| Item Title | Apeliadau, Ymgynghoriadau a Diweddariad DNS Ionawr 2023 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 7025 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad ar Ddatblygiadau Ceisiadau o Arwyddocad Cenedlaethol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. |

| Item ID | 7028 |
|---|---|
| Item Title | Achosion gorfodi a gafodd eu cau rhwng 27 Hydref 2022 a 15 Rhagfyr 2022 |
| Summary | Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth, Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn neilltuol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. |